**CYFARFOD Y CYNGOR** **18fed RHAGFYR 2019**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr aelodau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 20fed Tachwedd 2019 | - | Rhifau Cofnod | 82 - 95 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 20fed Tachwedd 2019 | - | Rhifau Cofnod | 28 - 30 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 4ydd Rhagfyr 2019 | - | Rhifau Cofnod | 31 - 33 |

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 4ydd Rhagfyr 2019 | - | Rhifau Cofnod | 38 - 47 |

## 3. CYFLWYNIAD: DATBLYGU CYMUNEDOL Y RHYL

Derbyn cyflwyniad gan Ms Nikki Jones, Arweinydd Datblygu Cymunedol ar gyfer y Rhyl, Cyngor Sir Ddinbych.

## 4. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

## 5. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

## 6. CAIS I ANNERCH Y CYNGOR: MR RICHARD KENDRICK, LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

Penderfynu ar gais i annerch y cyngor mewn perthynas ag Apêl y Pabi a chynllunio ar gyfer digwyddiadau coffa yn y dyfodol.

7. **CYNRYCHIOLYDD AR GYRFF ALLANOL – PARTNERIAETH CYRCHFAN SIR DDINBYCH**

Derbyn a phenderfynu ar gais (copi'n amgaeëdig) gan yr uchod i benodi cynrychiolydd i fynychu ei gyfarfodydd.

8. **CYSTADLEUAETH FFENESTRI'R NADOLIG 2019**

Hysbysu'r cyfarfod o enillwyr cystadleuaeth eleni.

9. **EITEM ER GWYBODAETH: MYNEGAI AMDDIFADIAD LLUOSOG CYMRU**

Derbyn nodyn briffio (copi'n amgaeëdig) yn dilyn cyhoeddi Mynegai 2019.

10. **EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

.

11. **HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol

12. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

13. **ADRODDIAD RHYDDFFREINIWR/WRAIG ANRHYDEDDUS**

Yn unol â pholisi'r Cyngor Tref a fabwysiadwyd, derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

14. **CYLLIDEB FLYNYDDOL**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr 2018, cymeradwyo'n ffurfiol argymhellion y gyllideb a'r cynllun ariannol pum mlynedd (copi o'r adroddiad yn amgaeëdig); codi praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/2020 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

15. **CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD: ARGYMHELLION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG**

Os oes angen, derbyn a phenderfynu ar argymhellion cyfarfod yr Is-bwyllgor Asesu Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y dydd.

16. **EGWYL Y NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r aelodau canlynol ar gyfer y cyfnod 19eg Rhagfyr hyd at 15fed Ionawr 2020:

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Caddeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau Pwyllgor CSG | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG |
| Holl Eitemau Eraill | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |

**17. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben

.